www.wao.gov.uk

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol - Ebrill 2008 i Fawrth 2009

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol | 3 |
| Sylwadaeth y Rheolwyr | 5 |
| Adroddiad ar Gydnabyddiaeth | 14 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 17 |
| Datganiad am Reolaeth Fewnol | 18 |
| Tystysgrif ac adroddiad yr Archwilydd | 23 |
| Datganiadau Ariannol a Nodiadau | 25 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 28 |

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

## Hanes a chefndir statudol

Mae swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn benodiad gan y Goron a grëwyd yn wreiddiol yn 1999 ac a ailsefydlwyd o dan adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Tan 31 Mawrth 2005, prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol oedd archwilio'r cyfrifon a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo a chyrff cyhoeddus cysylltiedig a chynnal archwiliadau gwerth am arian a oedd yn cwmpasu cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac eithrio llywodraeth leol. O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ehangwyd swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2005 i gwmpasu swyddogaethau archwilio ac arolygu a oedd yn ymwneud ag iechyd a llywodraeth leol a arferid yn flaenorol gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru. Ar yr un dyddiad, trosglwyddwyd staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru i gyflogaeth yr Archwilydd Cyffredinol i greu Swyddfa Archwilio Cymru gydag ef. Yn ogystal â'r aelodau o staff hyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn llunio contractau â chwmnïau gwasanaethau proffesiynol yn y sector preifat i ddarparu gwasanaethau archwilio, arolygu ac eraill.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gydweithio â Llywodraeth y Cynulliad, y Comisiwn Archwilio a'r Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd (a wnaeth uno â'r Comisiwn Arolygu Gofal Iechyd a Chomisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl i ffurfio'r Comisiwn Ansawdd Gofal, ar 1 Ebrill 2009) lle y bo'n briodol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o ran cyrff y GIG yn effeithlon ac yn effeithiol.

Ailsefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 swydd yr Archwilydd Cyffredinol gyda'i swyddogaethau a oedd yn bodoli eisoes a chreodd hefyd Gronfa Gyfunol Cymru a wnaeth arwain at roi swyddogaethau cysylltiedig i'r Archwilydd Cyffredinol o 1 Ebrill 2007.

## Sail Cyfrifon

Paratowyd y Datganiad Cyfrifon hwn yn unol â pharagraff 13 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

## Penodi Archwilwyr

Caiff cyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol eu harchwilio gan KTS Owens Thomas Cyfyngedig, cwmni a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

## Y Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi sefydlu Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg, y mae ei aelodau oll yn allanol i Swyddfa Archwilio Cymru. Cadeirir y pwyllgor gan Peter Laing. Yr Athro David Hands a Rosamund Blomfield-Smith yw'r aelodau eraill. Gadawodd John Buckley y pwyllgor ym mis Mehefin 2008 ac nid oes neb arall wedi cymryd ei le.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith yr archwilwyr allanol ac am y Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg yn y Datganiad am Reolaeth Fewnol.

## Cynllun pensiwn

Rhoddir manylion y trefniadau pensiwn ar gyfer staff yr Archwilydd Cyffredinol yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth.

**Jeremy Colman**
*Archwilydd Cyffredinol*

# Sylwadaeth y Rheolwyr

Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn deillio'n bennaf o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Yn gyffredinol, mae'r swyddogaethau yn cyfuno'r rhai a gyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ers 1999 ar gyfer archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol a chyrff cysylltiedig â'r rhai a gyflawnwyd gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru ar gyfer archwilio cyrff y GIG yng Nghymru ac archwilio, arolygu a rheoleiddio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff cyhoeddus a noddir ganddi, cyrff y GIG yng Nghymru a rhai cyrff eraill nad ydynt yn destun rheolaeth weinidogol fel Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ef sy'n penodi archwilwyr cyrff llywodraeth leol ac yn eu rheoleiddio.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau archwilio, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol bwerau a dyletswyddau amrywiol yn ymwneud â'r broses o arolygu cyrff llywodraeth leol a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1999 a gall gynnal astudiaethau ar y defnydd a wneir o adnoddau gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau ar y gwaith hwn ac i gyflwyno adroddiadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

## Adolygiad o weithgareddau yn ystod 2008-09

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adolygiad manwl yn hwyrach eleni o weithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru. Yn fras, fodd bynnag, y flwyddyn 2008-09 oedd y drydedd flwyddyn o gyflawni’r strategaeth tair blynedd cyntaf a gyflwynywyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mai 2006. Llywiwyd gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, a chwmnïau a gontractiwyd i'r Archwilydd Cyffredinol, yn ystod y flwyddyn gan y strategaeth a nododd pum thema y dylid rhoi sylw penodol iddynt:

a hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu arfer da

b twyll a llywodraethu corfforaethol

c gweithio mewn partneriaeth

d gwaith rheoli ariannol yn y GIG

e gwaith yn seiliedig ar systemau cyfan

Wrth ymlid y strategaeth hwnnw, ac yn ei genhadaeth i hyrwyddo gwelliant, fel bod pobl Cymru yn medru cael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol, wedi eu rheoli'n dda, sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian, cynhaliwyd cymysgedd o archwiliadau o gyfrifon, archwiliadau ac arolygiagau perfformiad lleol a chyhoeddwyd nifer o astudiaethau cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn atodol i’r swyddogaethau statudol hyn, parhaodd Swyddfa Archwilio Cymru i hyrwyddo dysgu a rennir ac arfer da drwy’r Gyfnewidfa Arfer Da. Mae safle’r Archwilydd Cyffredinol o fod yn gyfrifol am archwilio’r holl wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru wedi bod yn gynorthwyol iawn i Swyddfa Archwilio Cymru yn ei waith ar holl faterion sy'n ymwneud â chydweithredu a gweithio mewn partneriaeth o fewn Cymru.

Cyhoeddwyd strategaeth tair blynedd, ar gyfer 2009-2012, o'r enw Effaith Barhaus mewn Adeg o Newid, yng nghynhadledd Swyddfa Archwilio Cymru ar 20 Mai. Mae’r strategaeth hon yn dangos sut y mae'r sefydliad yn bwriadu cefnogi'r Archwilydd Cyffredinol wrth hyrwyddo gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus drwy waith archwilio ac arolygu mewn amgylchedd o newid sylweddol.

Hefyd, mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi comisiynu adolygiad annibynnol gan gymheiriaid ar ei chynnydd. Mae’r adolygiad yn ystyried effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Swyddfa Archwilio Cymru a bydd yn gwneud argymhellion. Bydd amseriad yr adolygiad gan gymheiriaid yn helpu i lywio cynlluniau Swyddfa Archwilio Cymru i gyflwyno ei strategaeth tair blynedd newydd.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk.

## Uwch aelodau o staff

Yr uwch aelodau o staff sy'n gyfrifol am gyfarwyddo prosiectau ynghyd â'r Archwilydd Cyffredinol yw'r Bwrdd Partneriaeth sy'n gydgyfrifol am Strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru, gydag un ohonynt, Anthony Snow, y Prif Swyddog Gweithredu, yn gyfrifol am weithgareddau o ddydd i ddydd. Mae Pwyllgor Rheoli yn gyfrifol am y broses o reoli Swyddfa Archwilio Cymru, yn wahanol i'r broses o gyfarwyddo prosiectau, dan gadeiryddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol.

Y Partneriaid oedd:

Anthony Snow
Anthony Barrett
Gillian Body
Paul Dimblebee
Simon Edge
Ann-Marie Harkin
John Herniman
Jane Holownia
Gill Lewis
Alan Morris
Ceri Stradling
Kevin Thomas
Mike Usher

| Sector | Categori'r corff | Nifer y cyfrifon |
|---|---|---|
| Llywodraeth Ganolog | Llywodraeth y Cynulliad | 5 |
| | Cyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad | 12 |
| | Cyrff cyhoeddus datganoledig annibynnol | 4 |
| | Cronfeydd pensiwn | 2 |
| | Arall | 4 |
| Cyrff y GIG yng Nghymru | Ymddiriedolaethau | 9 |
| | Byrddau iechyd lleol | 22 |

| Sector | Categori'r corff | Nifer y cyfrifon |
|---|---|---|
| Cyrff llywodraeth leol | Awdurdodau unedol | 22 |
| | Awdurdodau'r heddlu | 4 |
| | Awdurdodau tân | 3 |
| | Byrddau ac ymddiriedolaethau prawf | 4 |
| | Awdurdodau parciau cenedlaethol | 3 |
| | Cynghorau tref a chymuned | 740 |
| | Cronfeydd pensiwn | 7 |
| | Arall | 23 |
| **Cyfanswm** | | **864** |

## Y gwasanaethau a Ddarperir

Mae gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn cwmpasu 124 o brif gyrff a archwilir a 740 o gyrff eraill. Dadansoddir y cyrff hyn yn ôl y categorïau isod:

## Cymorth proffesiynol i'r Cynulliad Cenedlaethol a gwaith arall sy'n wynebu tuag allan

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi cyngor proffesiynol i gefnogi rôl graffu Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn sail i sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor Archwilio. Rhoddodd gefnogaeth i'r Pwyllgor hefyd o ran paratoi ei adroddiadau ei hun, sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus. Hefyd, rhoddodd gyngor i'r Pwyllgor ar ymatebion Llywodraeth y Cynulliad i'w argymhellion.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn monitro effaith ei waith ei hun, a gwaith y Pwyllgor Archwilio, yn barhaus. Mae hefyd yn rhoi cyngor sylweddol ad hoc i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi rhoi cyngor proffesiynol i gefnogi meysydd busnes eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae ymwybyddiaeth gyffredinol o waith yr Archwilydd Cyffredinol yn golygu ei fod yn derbyn ymholiadau a mynegiadau o bryder o ran rheoli ariannol, gwerth am arian ac ymddygiad priodol busnes cyhoeddus. Daw gohebiaeth o'r fath o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a busnesau. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r fath ohebiaeth wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer gwaith prif ffrwd yr Archwilydd Cyffredinol ac wedi nodi pynciau sy'n peri pryder gan ffynonellau y tu hwnt i gyfryngau swyddogol.

O ran gohebiaeth, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol rôl statudol benodol fel 'person rhagnodedig' o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 i gael datgeliadau sy'n ymwneud ag ymddygiad priodol busnes cyhoeddus, gwerth am arian, a thwyll a llygredd o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn diogelu cyflogeion sy'n gwneud datgeliad er lles y cyhoedd o ran camymddygiad yn y gweithle - a elwir yn 'chwythwyr chwiban' fel arfer. Fel gyda gohebiaeth arall, ymchwilir i ddatgeliadau o'r fath.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhwym wrth Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Ymdriniodd yr Archwilydd Cyffredinol â 72 o geisiadau (26 yn 2007-08) am wybodaeth yn ystod y flwyddyn.

## Gwaith grantiau

Gall cyrff talu grantiau ac asiantaethau eraill ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol (neu ei archwilwyr penodedig) ardystio ceisiadau am grantiau a ffurflenni ariannol eraill. Nod yr ardystio yw rhoi sicrwydd rhesymol y caiff ceisiadau a ffurflenni eu datgan yn deg ac yn unol â thelerau ac amodau penodol y grant a ddyfarnwyd. Ar hyn o bryd, darperir y gwasanaeth hwn i 50 o gynlluniau grant, sy'n cwmpasu gwariant grant o tua £3 biliwn y flwyddyn.

## Risgiau ac ansicrwydd

Mae dwy brif risg ariannol y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn agored iddynt, sef:

**a** Colli incwm posibl oherwydd newidiadau yn y sector iechyd a'r Mesur Llywodraeth Leol.

**b** Y modd yr ymdrinnir â TAW ar waith arolygu. Ymdrinnir â hyn yn fanylach yn Nodyn 25.

Bydd y sector iechyd yn cael ei newid yn sylweddol yn ystod mis Hydref 2009. Caiff y rhan fwyaf o'r cyrff iechyd sy'n bodoli ar hyn o bryd, sy'n cynnwys ymddiriedolaethau iechyd a byrddau iechyd lleol, eu huno i ffurfio saith endid newydd. Er y bydd cynnydd yn yr incwm sy'n deillio o'r newidiadau yn y byrdymor, yn y tymor hwy mae'n debygol y bydd angen gwneud llai o waith archwilio ac felly bydd llai o incwm sy'n deillio o ffioedd wrth i'r cyrff newydd ymgyfarwyddo â phatrwm sefydlog o weithredu.

Caiff y broses o gyflwyno'r Mesur Llywodraeth Leol, a gafodd ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 28 Ebrill 2009, effaith fawr ar natur y gwaith o archwilio perfformiad a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol o fewn y cyrff llywodraeth leol y mae'n ymwneud â hwy. Ar y cam hwn, nid yw'n glir pa effaith ariannol a gaiff hyn ar incwm yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n asesu effaith y newidiadau hyn ac, os yw'n briodol, bydd yn ei hystyried yn ei bapur amcangyfrif cyllidebol blynyddol a gyflwynir i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref 2009. Mae'r papur hwnnw yn amlinellu ei gais am adnoddau a chyllid a ariennir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

## Adolygiad Ariannol

Mae'n ddyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol, gan gymharu un flwyddyn ag un arall, i sicrhau nad yw ei incwm yn llai na'i wariant.

Cynhyrchwyd y gwarged o £10,000 (0.04 y cant o incwm gweithredu) ar gyfer y flwyddyn o incwm gweithredu o £25.2 miliwn, sy'n cynnwys ffioedd, grantiau ac adnoddau a gymeradwywyd. Gellir dadansoddi'r incwm fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Llywodraeth Ganolog | £6.6 miliwn |
| Awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a thai | £14.2 miliwn |
| Iechyd | £4.4 miliwn |

Mae costau staff yn cyfateb i 66.6 y cant o'r costau gweithredu. Er mwyn cynorthwyo'r staff a sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau technegol a datblygu angenrheidiol gwariwyd £159,000 (2007-08, £251,000) ar hyfforddi staff yn ystod y flwyddyn. Adeiladwyd costau'r amser a wariwyd ar hyfforddiant o'i fath, a brisiwyd ar gyfradd tâl safonol, i £1.3 miliwn (2007-08, £1.3 miliwn).

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, cofnodir y broses o gysoni swm yr adnoddau cymeradwy net â'r gofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn yn Nodyn 10. Mae'r nodyn yn dangos i'r Archwilydd Cyffredinol ddefnyddio'r holl adnoddau net cymeradwy a bod angen y dyraniad llawn o arian parod arno ar gyfer y flwyddyn. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 10.

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Yn ystod 2008-09, dechreuodd Grant Thornton, KPMG a PricewaterhouseCoopers weithio o dan gontractau fframwaith newydd yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer gwasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig. Rhyngddynt, cyflawnodd y tri chwmni hyn tua 29 y cant o'r prif ymgymeriadau archwilio ym meysydd llywodraeth leol, iechyd a llywodraeth ganolog, am £3.9 miliwn yn ystod y flwyddyn. Caiff y broses o archwilio cynghorau cymuned ei chyflawni gan naill ai UHY Hacker Young, BDO Stoy Hayward neu Mazars.

Roedd costau'r adeiladau yn ystod y flwyddyn yn £0.9 miliwn. Er i'r brif swyddfa yng Nghaerdydd ddechrau gweithredu ym mis Mawrth 2008, roedd prydlesau yn dal i fod mewn grym ar y prif swyddfeydd gwreiddiol. Yn ystod y flwyddyn, terfynwyd y brydles ar gyfer un o'r prif swyddfeydd hyn. Daw'r brydles sy'n weddill ar gyfer y brif swyddfa wreiddiol i ben ym mis Awst 2009.

## Effaith ar yr amgylchedd

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd ar drywydd ac yn hyrwyddo stiwardiaeth amgylcheddol dda drwy weithredu arfer gorau amgylcheddol a lleihau ein heffeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau. Credwn fod arferion amgylcheddol cadarn yn ategu mesurau eraill i gynyddu effeithlonrwydd ac yn cefnogi'r amcan ehangach i hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy ystyried effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ein gwaith a'n gweithgareddau. Ymhlith yr amcanion a'r cyflawniadau penodol mae:

a Cyflawni Lefel 3, achrediad amgylcheddol y Ddraig Werdd mewn tair o'n prif swyddfeydd. Mae Lefel 3 yn cynnwys monitro CO2, rheoli gwastraff, cydymffurfio â deddfwriaeth, a gwneud gwaith monitro amgylcheddol.

b Ailwampio'r pencadlys yng Nghaerdydd yn unol â'r safonau amgylcheddol uchaf a chael gradd BREEAM dda iawn a pherfformiad amgylcheddol 75 (gwyrdd).

**c** Lleihau ein milltiroedd teithio mewn ceir at ddiben busnes dri y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan fethu ein targed dau y cant. Rydym wedi lleihau 5,080kg o $CO_2$ ac wedi lleihau allyriadau cyfartalog pob cerbyd sy'n rhan o'r fflyd o 163 i 154g/km yn ystod 2008-09.

**ch** Cynyddu'r defnydd o fideo-gynadledda 185 y cant a hyrwyddo telegynadledda yn ystod 2008-09.

**d** Cyflawni ffigurau llinell sylfaen o ran perfformiad monitro ynni er mwyn cyflawni gostyngiad cychwynnol o ddau y cant dros y cyfnod i ddod.

**dd** Lleihau faint o bapur swyddfa a ddefnyddir un y cant (12,500 o ddalenni) drwy fesurau fel slipiau cyflog ar-lein i staff, cyhoeddi mwy o adroddiadau'n electronig, argraffu a sganio dwplecs. Ein targed yw lleihau hyn bump y cant.

**e** Sicrhau bod ein cyflenwyr yn cynnal arferion cynaliadwyedd cadarn, a chynyddu ein defnydd o e-bwrcasu fel rhan o'n prosesau caffael.

**f** Ailgylchu'n fwy lle bynnag y bo'n bosibl, sy'n cynnwys papur, plastig, caniau, a chetris arlliw a phennu llinellau sylfaen ar gyfer cynhyrchion a ailgylchwyd.

## Pobl

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflogi 270 aelod o staff (cyfwerth ag amser llawn) yn uniongyrchol am gost o £16.8 miliwn.

Mae ansawdd, amrywiaeth ac ymgysylltiad staff yn hollbwysig i lwyddiant Swyddfa Archwilio Cymru. Bu i'r mentrau pwysig a nodwyd yn strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru ei gwneud yn ofynnol i staff gael eu datblygu i sicrhau eu bod yn meddu ar yr amrywiaeth a'r lefel o sgiliau gofynnol.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i'r canlynol:

**a** datblygu staff i roi'r sgiliau a'r hygrededd iddynt gyflawni rhaglenni gwaith a nodau hirdymor y sefydliad;

**b** sicrhau bod niferoedd staff a sgiliau yn cyfateb i'r llwyth gwaith;

**c** datblygu a chreu'r strwythur er mwyn galluogi staff i ehangu eu profiad a datblygu eu gyrfaoedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dymuno hyrwyddo amrywiaeth, cyfle cyfartal a hawliau dynol fel cyflogwr a thrwy ei swyddogaethau archwilio ac arolygu. Yng nghyd-destun cyflogaeth, golyga hyn fod yr Archwilydd Cyffredinol nid yn unig yn ceisio cyflawni ei rwymedigaethau statudol, ond hefyd yn annog arfer da fel bod cyflogeion presennol a darpar gyflogeion yn cael eu trin yn gadarnhaol ac yn gyson waeth beth fo'u rhyw, eu statws priodasol, eu hethnigrwydd, eu hoedran, eu tueddfryd rhywiol, eu statws o ran newid rhyw, eu hanabledd na'u crefydd. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ceisio cynnwys cyflogeion ac ymgynghori â hwy ynghylch amrywiaeth o faterion gan gynnwys telerau ac amodau drwy'r undebau llafur.

Mae datblygiadau yn y dyfodol yn cynnwys rhaglen hyfforddi i ddatblygu staff a rheolwyr a chynllun rheoli perfformiad newydd. Yn rhan o'r cynllun rheoli perfformiad mae cynllun adborth llawn lle y caiff rheolwyr eu harfarnu gan staff.

## Absenoldeb oherwydd salwch

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd camau rhagweithiol i leihau absenoldeb oherwydd salwch, sy'n cynnwys:

**a** rhoi gweithdrefnau ar waith i gofnodi a rheoli absenoliaeth;

**b** hyrwyddo ffordd o fyw iach.

Collwyd 5.18 diwrnod fesul cyflogai ar gyfartaledd (2007-08, 6.43 diwrnod). Er mwyn gwella'r lefel hon ymhellach a lleihau nifer yr absenoldebau oherwydd salwch, anogir byw'n iach. Er enghraifft, cynlluniwyd sawl cynllun fel aberthu cyflog i brynu beiciau a darparu ffrwythau ffres fel byrbryd iach amgen i helpu staff i fod yn iachach.

Hefyd, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnig archwiliadau meddygol am ddim i staff, gydag oedran a rhyw yn effeithio ar ba mor aml y'u cynhelir. Mae'r gwasanaeth hwn yn gwbl gyfrinachol ond mae'n annog staff i nodi a gobeithio weithredu ar unrhyw faterion a all godi'n gynt nag y byddent fel arall. Yn y tymor hwy, disgwylir i hyn gyfrannu at leihau absenoldeb oherwydd salwch drwy i staff fod yn iachach.

| Nifer y diwrnodau a gollwyd fesul cyflogai ar gyfartaledd | Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd | % a gollwyd oherwydd salwch hirdymor |
|---|---|---|
| 5.18 | 1,539 | 37.2% |

| Dadansoddi'r rhesymau allweddol dros absenoldeb | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfran a gollwyd oherwydd | | | |
| Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd | Straen | Cyhyrysgerbydol | System anadlu | Arall |
| 1,539 | 14.7% | 15.4% | 20.3% | 49.6%[1] |

1 Mae hyn yn cynnwys cyflyrau sy'n effeithio ar y galon a'r llygaid ond mae hefyd yn cynnwys amser nas priodolwyd yn benodol i unrhyw gategori penodol o salwch.

| Diwrnodau absenoldeb oherwydd salwch a nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y staff ar y gyflogres | Cyfanswm nifer y blynyddoedd staff | Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd | Diwrnodau gwaith a gollwyd fesul blwyddyn staff ar gyfartaledd | Nifer y diwrnodau a gollwyd fesul cyflogai ar gyfartaledd |
| 297[1] | 253 | 1,539 | 6.08 | 5.18 |

1 Dyma nifer y bobl ar y gyflogres. Y nifer sy’n gyfwerth ag amser llawn yw 270.

## Colli data personol

Mae mwy o ymwybyddiaeth o reoli a diogelu gwybodaeth o fewn cyrff y llywodraeth ac mae gan Swyddfa Archwilio Cymru bolisïau a gweithdrefnau ar waith i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw achos posibl o golli data. Mae’r rheolaethau ac arferion gweithredol yn cael eu gwella’n barhaus ac i gydnabod hyn cynhaliwyd sawl menter i reoli'r risg i wybodaeth fel y nodir yn y Datganiad am Reolaeth Fewnol ar dudalen 18, sydd hefyd yn manylu ar y ffordd y mae'r broses o ddiogelu gwybodaeth wedi cael ei gwella.

O fewn y cyfnod ariannol dan sylw, ni chafodd y Comisiynydd Gwybodaeth wybod am unrhyw achosion o golli data personol. Hefyd ni chafodd y Comisiynydd Gwybodaeth wybod am unrhyw achosion yn ymwneud â data personol a ddiogelwyd a gofnodwyd yn ganolog.

## Datblygiadau'r Dyfodol

Cyhoeddwyd cynllun strategol newydd ar gyfer 2009-2012 ym mis Mai 2009, fel y nodwyd yn Sylwadaeth y Rheolwyr ar dudalen 5.

Mae system meddalwedd gyfrifiadurol newydd ar gyfer cyfriflyfr cyffredinol wrthi'n cael ei chaffael i'w rhoi ar waith ym mis Ebrill 2010. Bydd y system hon, ynghyd â'r systemau sydd wedi cael eu gweithredu dros y ddwy flynedd diwethaf, yn darparu gwybodaeth reoli lawer gwell ac yn cyflawni arbedion o gymharu â systemau blaenorol.

Caiff system rheoli dogfennau ei rhoi ar waith i wella perfformiad o ran talu anfonebau cyflenwyr. Mae i hyn y fantais ychwanegol o sicrhau y caiff unrhyw anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch eu datrys yn gynharach, am ei bod yn bosibl gweld gwybodaeth am anfonebau yn llawn ac ar unwaith. Yn sgîl y ffaith y caiff y data ei gadw'n electronig, dylai hyn sicrhau proses bapur fwy diogel a ddylai yn y pen draw arwain at fanteision eraill, fel manteision amgylcheddol. Er enghraifft, ni fydd angen anfon anfonebau i bob cwr o'r wlad i'w hawdurdodi oherwydd bydd modd gwneud hyn ar-lein.

Hefyd, caiff modiwl llif arian parod ei roi ar waith i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i ragfynegi gofynion arian parod yn fwy cywir a sicrhau y ceir cymaint o log â phosibl. Ar y cyfan caiff ei integreiddio â'r system newydd ar gyfer cyfriflyfr cyffredinol.

Yn ogystal ag ailsefydlu swydd yr Archwilydd Cyffredinol gyda'i swyddogaethau presennol, creodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 Gronfa Gyfunol Cymru a gyflwynodd swyddogaethau cysylltiedig ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol o 1 Ebrill 2007. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am oruchwylio taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru. Mewn ymateb i geisiadau gan Weinidogion Cymru, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn sicrhau bod taliadau arfaethedig o Gronfa Gyfunol Cymru yn cydymffurfio â chynigion cyllidebol y Cynulliad Cenedlaethol neu fel arall yn unol â deddfwriaeth. Ar ôl i'r Archwilydd Cyffredinol ei awdurdodi, mae'r Tâl-feistr Cyffredinol yn dyrannu arian o Gronfa Gyfunol Cymru i'r corff cyhoeddus priodol. Yn ystod y flwyddyn, cadarnhaodd a chymeradwyodd yr Archwilydd Cyffredinol gyfanswm o £11.9 biliwn o daliadau.

## Digwyddiadau ôl-fantolen

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen yr oedd angen eu datgelu yn y Datganiadau Ariannol hyn.

## Polisi Talu

Nod yr Archwilydd Cyffredinol yw gweithredu yn unol ag egwyddorion y Cod Ymarfer Talu Gwell a thalu pob anfoneb nad oes amheuaeth yn ei chylch gan ei gyflenwyr o fewn 30 diwrnod. Yn ystod y cyfnod o 12 mis, talwyd 95.8 y cant o'r anfonebau nad oedd amheuaeth yn eu cylch o fewn 30 diwrnod (2007-08, 95.6 Y cant). Hefyd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn anelu at dalu anfonebau yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Tachwedd 2008 yn nodi y dylai busnesau bach a chanolig gael eu talu o fewn 10 diwrnod. Roedd y canllawiau penodol hyn creu anawsterau yng ngwahaniaethu rhwng gyflenwyr mewn felly ymestynnodd yr Archwilydd Cyffredinol y canllawiau i gwmpasu pob anfoneb, p'un a yw'n perthyn i fusnesau bach neu fawr.

## Taliadau cydnabyddiaeth

Datgelir manylion yn yr adroddiad isod ar Gydnabyddiaeth.

## Archwilydd Allanol

Caiff y Datganiadau Ariannol hyn eu harchwilio gan KTS Owens Thomas Cyfyngedig, sef archwilydd allanol annibynnol yr Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol ag Atodlen 8 i adran 14 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Datgelir y ffi archwilio yn Nodyn 7.

# Adroddiad ar Gydnabyddiaeth

Yn ystod 2008-09, codwyd costau cyflog yr Archwilydd Cyffredinol yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 8 i adran 6 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009, £170,200 (2007-08: £165,575) oedd y swm a dalwyd o ran taliadau cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol a chostau pensiwn y cyflogwr o £29,988 (2007-08, £28,764).

## Uwch Reolwyr

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff. Mae Pwyllgor Rheoli, mewn cydweithrediad â'r Prif Swyddog Gweithredu, yn ymdrin â'r gwaith o reoli Swyddfa Archwilio Cymru o ddydd i ddydd.

Mae'r Pwyllgor Rheoli, o dan gadeiryddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol, yn cynnwys pum uwch aelod o staff ychwanegol fel a ganlyn:

| | Dyddiad eu penodi i Swyddfa Archwilio Cymru neu sefydliad rhagflaenol | Dyddiad eu penodi i'r swydd | Contract |
|---|---|---|---|
| Anthony Snow (Prif Swyddog Gweithredu) | 1/10/1990 | 8/2/2006 | Parhaol |
| Ceri Stradling | 1/11/1984 | 8/2/2006 | Parhaol |
| Gillian Body | 12/9/1981 | 8/2/2006 | Parhaol |
| Simon Edge | 1/11/2005 | 8/2/2006 | Parhaol |
| Jane Holownia | 24/10/1994 | 8/2/2006 | Parhaol |

Adolygir perfformiad pob rheolwr bob chwe mis a chynhelir adolygiad o gyflogau bob blwyddyn. Rhoddir 12 wythnos o rybudd i bob rheolwr.

## Manylion taliadau cydnabyddiaeth uwch reolwyr (mae'r wybodaeth hyn yn amodol ar archwiliad)

Mae'r tabl canlynol yn cwmpasu taliadau cydnabyddiaeth uwch reolwyr ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009.

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 | | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog | Buddiannau mewn da | Cyfanswm | Cyfraniad pensiwn | Cyfanswm (heb gynnwys cyfraniad pensiwn) |
| | Bandiau o £5,000 | I'r £100 agosaf | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £5,000 |
| Anthony Snow[1] | 130-135 | 2,200 | 135-140 | 27.5-30 | 125-130 |
| Ceri Stradling | 100-105 | 5,300 | 105-110 | 25-27.5 | 95-100 |
| Gillian Body | 110-115 | 700 | 110-115 | 27.5-30 | 100-105 |
| Simon Edge | 100-105 | 4,300 | 105-110 | 25-27.5 | 95-100 |
| Jane Holownia[2] | 95-100 | 0 | 95-100 | 22.5-25 | 80-85 |

1 Mae Anthony Snow wedi cael £2,400 (i'r cant agosaf) o gyfraniadau cyflogwr, yn seiliedig ar y cyflog a gafwyd uwchlaw'r terfyn enillion at ddibenion cyfrifo pensiwn. Talwyd y swm hwn i mewn i'w gyflog yn rhannol ac yn rhannol uniongyrchol i mewn i gynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol prynu arian.

2 Bu Jane Holownia yn gweithio'n rhan amser am rywfaint o'r flwyddyn a chyfrifwyd ei chyflog, sy'n cynnwys lwfans teithio, ar sail pro rata yn seiliedig ar yr oriau a weithiwyd.

## Manylion hawl pensiwn uwch reolwyr (mae'r wybodaeth hyn yn amodol ar archwiliad)

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2009 | Cyfanswm pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2008 | Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo | Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth 2009 | Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth 2008 a ail ddatganwyd | Gwerth trosglwydd o sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth 2008 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £5,000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Anthony Snow | 0-2.5 | 55-60 | 55-60 | 78 | 863 | 785 | 907 |
| Ceri Stradling | 0-2.5 | 40-45 | 35-40 | 55 | 694 | 639 | 668 |
| Gillian Body | 0-2.5 | 35-40 | 35-40 | 53 | 652 | 599 | 647 |
| Simon Edge | 0-2.5 | 45-50 | 40-45 | 60 | 665 | 605 | 645 |
| Jane Holownia | 0-2.5 | 20-25 | 15-20 | 44 | 271 | 227 | 253 |

**Nodyn**

Ail ddatganwyd y gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod a fu'n cau ar 31 Mawrth 2008 gan y Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil Mae'r gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod yn amrywio o un flwyddyn i'r llall yn dibynnu ar amodau'r farchnad a oedd mewn grym yn ystod y flwyddyn. Gall hyn arwain at gynnydd neu ostyngiad yn y gwerth trosglwyddo.

## Manylion taliadau cydnabyddiaeth Aelodau o'r Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg:

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Peter Laing - Cadeirydd | 7,250 | 6,067 |
| Yr Athro David Hands | 5,000 | 4,054 |
| Rosamund Blomfield-Smith | 5,000 | 4,054 |
| John Buckley[1] | Nil | Nil |

1 John Buckley oedd Ysgrifennydd a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Iwerddon. Ymunodd â'r Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg ar 12 Mawrth 2008. Ni chafodd unrhyw daliadau cydnabyddiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru am y gwaith hwn a thalwyd yr holl dreuliau i Swyddfa Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Iwerddon. Ymddiswyddodd ar 4 Mehefin 2008 am iddo gael ei benodi'n Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Iwerddon.

Mae'r contract, ac eithrio ar gyfer John Buckley, yn para tair blynedd o 1 Tachwedd 2005, gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn am dair blynedd arall os cytunir ar hyn gan y naill barti a'r llall, gyda'r pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Ymestynnwyd contractau'r tri aelod am dair blynedd.

Ni chaiff unrhyw aelodau gyflog sy'n seiliedig ar berfformiad, ac nid ydynt ychwaith yn aelodau o'r cynllun pensiwn.

## Trefniadau Pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddiannau diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir ac felly ni all yr Archwilydd Cyffredinol nodi cyfran yr asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol sy'n ymwneud â staff Swyddfa Archwilio Cymru. Cynhaliwyd prisiad diweddaraf llawn yr actiwari ar 31 Mawrth 2007. Ceir y prisiad nesaf, a gynhelir bob pedair blynedd fel arfer, mewn tair blynedd, ar 31 Mawrth 2010. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Roedd cyfraniadau arferol y cyflogwr o £2,423,000 (2007-08: £2,321,000) yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 17.1% i 25.5% o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.   Bydd y cyfraniadau yn gostwng ar gyfer y pedair cyfradd yn yr ystod 16.7% i 24.3% a bydd y bandiau cyflog yn cynyddu ychydig yn 2009-10. Cynhelir adolygiad o gyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer, ond cynhelir yr adolygiad nesaf mewn tair blynedd, yn dilyn proses brisio'r cynllun gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu buddiannau wrth iddynt gael eu cronni, nid pan eir i'r costau yn union, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

......................................

Jeremy Colman

*Swyddog Cyfrifyddu*

19 Mehefin 2009

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Yn unol â chyfarwyddyd y Trysorlys, paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Archwilydd Cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a'i wariant, cyfanswm ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gydymffurfio â Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol yn benodol:

**a** dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

**b** llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;

**c** datgan p'un a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol wedi eu dilyn a datgelu ac esbonio unrhyw wyro perthnasol oddi wrthynt yn y datganiadau ariannol;

**ch** paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol gwneud hynny.

Nodir cyfrifoldebau perthnasol yr Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol drosto, ac am gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn *Managing Public Money*.

# Datganiad am Reolaeth Fewnol

## Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r dasg o gyflawni fy mholisïau, fy nodau a'm hamcanion, tra'n diogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol yn unol â'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd i mi yn *Managing Public Money*.

Fel Archwilydd Cyffredinol, rwy'n annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y Cynulliad. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol (ac i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin) am drefnu, rheoli a staffio Swyddfa Archwilio Cymru yn gyffredinol ac am ei gweithdrefnau o ran materion ariannol a materion eraill. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn archwilio fy amcangyfrif blynyddol o incwm a gwariant.

## Diben y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risgiau i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt y gall ei roi o ran effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni fy mholisïau, fy nodau a'm hamcanion, i werthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe caent eu gwireddu, ac i reoli'r risgiau hynny yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i datblygu'n gynyddol yn ystod y flwyddyn ariannol 2008-09 ac wedi hynny, ac mae'n unol â chanllawiau'r Trysorlys.

## Y gallu i ymdrin â risg

Rwyf wedi sefydlu trefniadau rheolaeth fewnol i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu nodi, asesu a rheoli risgiau yn effeithiol.

### a Y Pwyllgor Rheoli

Mae'r pwyllgor hwn, yr wyf yn gadeirydd arno, yn gyfrifol am oruchwylio prosesau rheoli risg o fewn y sefydliad.

Pennir y diwylliant rheoli risg o fewn y sefydliad ar lefel strategol. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r holl risgiau corfforaethol a digonolrwydd y mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn yn chwarterol. Mae hefyd yn ystyried risg fel rhan annatod o'i brosesau penderfynu ac mae'n bodloni'i hun y caiff y risgiau corfforaethol a gweithredol eu rheoli gan berchenogion risg penodedig, a bod y trefniadau hyn yn gweithio'n effeithiol.

Trafodir pob mater sy'n codi mewn adroddiadau archwilio mewnol gan y Pwyllgor Rheoli a chytunir ar unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio ohonynt cyn eu gweithredu.

b **Y Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg**

Mae'r Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg yn cwrdd o leiaf bedair gwaith o fewn cyfnod safonol o 12 mis. Sefydlwyd y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2005 a chyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn sy'n destun adolygiad. Dyma grynodeb o'i gyfrifoldebau:

- adolygu'r cyfrifon blynyddol drafft a chynghori ar unrhyw ddiwygiadau neu welliannau cyn eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n derfynol a'u llofnodi;
- adolygu a chraffu ar y canlynol:
  - polisïau, arferion a phrosesau ariannol a chyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru;
  - y systemau rheolaeth fewnol gan gynnwys adolygu'r cynlluniau gwaith archwilio mewnol a chynghori arnynt, adolygu adroddiadau archwilio mewnol a digonolrwydd ymatebion rheoli;
  - yr adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn y cyfnod, gan gynnwys adolygiad o'r gwaith parhaus wrth weithredu argymhellion archwilio;
  - dulliau asesu a rheoli risgiau'r Pwyllgor Rheoli gan gynnwys adolygiad ffurfiol o'r risgiau corfforaethol a nodwyd yn chwarterol;
  - canlyniadau'r archwiliad allanol gan KTS Owens Thomas Cyfyngedig gan gynnwys ei lythyr rheoli a'r ymateb gan reolwyr.
- gall y Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg, mewn amgylchiadau eithriadol, gyflwyno adroddiad ar fy ngweithredoedd a'm hymddygiad i Gadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fy nod yw mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg.

c **Archwiliad Mewnol**

Penodwyd aelod o'r Pwyllgor Rheoli yn Bennaeth Archwilio Mewnol. Mae'n atebol i'r Pwyllgor Rheoli ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg ar gyfer adolygiad yn unol â safonau a ddiffinnir yn Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Ymhlith yr adroddiadau hynny mae barn annibynnol yr archwilydd mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y sefydliad ynghyd â'r argymhellion ar gyfer gwella. Anogaf hefyd gyswllt rhwng y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r gwasanaeth Archwilio Allanol i sicrhau y cynhelir archwiliad effeithlon a chost effeithiol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o briod rolau a gofynion.

ch **Archwiliad Allanol**

Gwahoddir yr archwilydd allanol, KTS Owens Thomas Cyfyngedig, i fod yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg ac mae modd iddo gysylltu â mi a Chadeirydd y Pwyllgor yn uniongyrchol.

## Y fframwaith risg a rheolaeth

Rwyf yn arddel y saith egwyddor ymddygiad sy'n ategu bywyd cyhoeddus fel y'u nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Anhunanoldeb, Cywirdeb, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Bod yn Agored, Gonestrwydd ac Arweinyddiaeth).

Y prif nodweddion a'r rheolaethau lefel uchel allweddol sydd wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn yw:

**a** Strwythur sefydliadol sy'n ategu llinellau clir o gyfathrebu ac atebolrwydd.

**b** Gweithredu cynllun strategol tair blynedd y cytunwyd arno gydag uwch reolwyr ac sy'n destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Fel y nodwyd yn Sylwadaeth y Rheolwyr ar dudalen 5, cyhoeddwyd cynllun strategol tair blynedd newydd ym mis Mai 2009.

**c** Prosesau clir fel bod y risgiau a nodwyd yn rhan o strwythur cyffredinol.

Cynlluniwyd prosesau rheoli risg y sefydliad i wneud y canlynol:

**a** Sefydlu fframwaith polisi a gymeradwyir gan y Pwyllgor Rheoli, lle y caiff risgiau strategol eu nodi, eu rheoli a'u hadolygu'n barhaus.

**b** Ymgorffori'r gwaith o reoli risgiau a chydymffurfio drwy ei wneud yn rhan o'r prosesau rheoli o ddydd i ddydd. Er mai'r Pwyllgor Rheoli sy'n gyfrifol am y risgiau ar y cyd, dyrennir pob risg gorfforaethol i Bartner neu Bennaeth Gwasanaeth priodol. Mae hyn yn sicrhau bod rheoli risg yn rhan hanfodol o'r holl drefniadau rheoli gweithredol. Yn ogystal, caiff pob risg ei rheoli gan reolwr a enwir, sy'n adolygu'r risg honno ac yn cyflwyno adroddiad arni.

**c** Gweithredu'n gyson drwy'r sefydliad cyfan. Rwyf wedi gwneud hyn drwy benodi aelod o'r Pwyllgor Rheoli, y mae rhan o'i swyddogaeth yn golygu sicrhau y caiff pob risg ei rheoli gan ddefnyddio dull cyson o weithredu.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, nodais bedwar maes risg cyffredin yr wyf yn eu rheoli:

**a** colli incwm posibl drwy ailgyflunio sefydliadau drwy'r sector cyhoeddus yng Nghymru;

**b** risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli matrics;

**c** risgiau gweithredol ac ariannol;

**ch** risgiau cyfreithiol.

## Adolygiad o waith cyflenwyr archwiliadau

Byddaf yn pennu'r safonau ar gyfer yr archwilwyr a gyflogir neu a benodir gennyf, gan gynnwys staff Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn monitro eu perfformiad. Mae'r gofyniad i archwilwyr gydymffurfio â safonau proffesiynol a moesegol a defnyddio staff sy'n meddu ar y sgiliau priodol sy'n destun cyfarwyddyd rheoli ac adolygiad effeithiol ar bob cam o'r broses archwilio yn ganolog i'm gweithdrefnau rheoli ansawdd archwiliadau.

Rwyf yn sicrhau bod safonau yn cael eu monitro ac yn gwerthuso ansawdd gwaith cyflenwyr archwiliadau (o fewn Swyddfa Archwilio Cymru a chan gwmnïau preifat) drwy adolygiad blynyddol sy'n seiliedig ar risgiau). Mae'r adolygiad yn pennu p'un a yw archwilwyr yn cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu, yn bodloni gofynion penodol eraill, ac yn hyrwyddo gwelliannau fel bod pobl Cymru yn cael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Cyflwynir adroddiadau ar ganlyniadau'r adolygiad i gyflenwyr archwiliadau. Ystyriaf ansawdd wrth rwymo i gontract â chwmnïau preifat ac wrth benodi i swyddi archwilio.

### Adolygiad o effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Llywir yr adolygiad hwn gan waith yr archwilwyr mewnol a'm huwch reolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu'r fframwaith rheolaeth fewnol a'i gynnal, a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Mae'r Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg wedi ystyried canlyniad yr adolygiad a'm cynllun i sicrhau gwelliant parhaus y system a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau.

Mae'r broses a gynhaliwyd gennyf i sicrhau rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rheoli risg a ffynonellau eraill o sicrwydd, gan gynnwys archwiliad mewnol. Mae modd i'r Pennaeth Archwilio Mewnol gysylltu â mi a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg yn rheolaidd ac yn ddilyffethair, ac mae'n bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg.

Mae aelod o'm Pwyllgor Rheoli yn gyfrifol am reoli risg ac mae'n cadw cofrestr o risgiau corfforaethol. Adolygir y gofrestr hon yn rheolaidd a'i diweddaru fel y bo'n briodol. Asesir materion yn ymwneud â risgiau nid dim ond yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli ond hefyd gan y Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg. Sefydlwyd cofrestrau risg sector neu swyddogaeth hefyd sy'n ategu'r gofrestr gorfforaethol ac y mae Partneriaid a Phenaethiaid Gwasanaethau yn gyfrifol amdanynt ac yn eu diweddaru.

Er mwyn cydnabod y materion diogelwch gwybodaeth cyffredinol a wynebwyd gan bob rhan o'r sector cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi ceisio diogelu data a gedwir yn electronig gan Swyddfa Archwilio Cymru ymhellach. Gwnaed hyn drwy:

- **a** atgoffa pob aelod o staff o'i gyfrifoldebau tuag at y broses sylfaenol o ddiogelu asedau yn unol â pholisïau corfforaethol, p'un a ydynt yn asedau ffisegol fel gliniaduron neu'n asedau gwybodaeth fel data a gedwir ar gyfrifiaduron neu ar gyfryngau electronig cludadwy;
- **b** sicrhau bod pob gliniadur wedi ei uwchraddio fel y caiff pob gyriant caled ei amgryptio i atal mynediad heb awdurdod mewn achos o ddwyn;
- **c** sicrhau bod pob cofbin wedi ei uwchraddio er mwyn sicrhau mai dim ond dyfeisiau wedi'u hamgryptio a ddefnyddir gan fy staff i atal mynediad heb awdurdod mewn achos o ddwyn;
- **ch** atgoffa staff i beidio â gofyn am ddata personol oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol a dileu unrhyw wybodaeth bersonol oni bai y gofynnir amdani'n benodol fel rhan o dystiolaeth archwiliad.

At hynny, rwyf wedi dechrau adolygiad o'r broses o lywodraethu gwybodaeth gorfforaethol a gynhelir gan PricewaterhouseCoopers er mwyn edrych ar drefniadau llywodraethu gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru. Bwriedir ei gwblhau a chyflwyno adroddiad i mi yn 2009.

## Problemau mawr o ran rheolaeth fewnol

Nid wyf wedi profi unrhyw broblemau mawr ym maes rheolaeth, fel y'u diffinnir gan y Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol, yn ystod y flwyddyn.

.......................................

Jeremy Colman

*Swyddog Cyfrifyddu*

19 Mehefin 2009

## Tystysgrif ac adroddiad KTS Owens Thomas Cyfyngedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiwn ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 ar dudalennau 25 i 47 o dan baragraff 15 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd a'r polisïau cyfrifyddu a nodir ar dudalennau 28 a 29. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel rhai a archwiliwyd.

### Priod gyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru a KTS Owens Thomas Cyfyngedig

Fel y disgrifir ar dudalen 17, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir o dan y ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Rydym yn gyfrifol am archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth i'w harchwilio yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Cyflwynwn ein barn o ran p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ai peidio ac a gaiff y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth i'w harchwilio eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir o dan y ddeddf honno, a pha un a gymhwyswyd y gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a pha un a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Nodwn hefyd, os nad yw Sylwadaeth y Rheolwyr, yn ein barn ni, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad, neu os na ddatgelir gwybodaeth yn ymwneud â thaliadau cydnabyddiaeth aelodau o'r uwch dîm rheoli a thrafodion eraill a nodir gan y Gyfraith.

Darllenwn y wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac ystyriwn p'un a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Sylwadaeth y Rheolwyr a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth nas archwiliwyd. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n tystysgrif os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid yw ein cyfrifoldebau yn cwmpasu unrhyw wybodaeth arall.

Rydym yn adolygu p'un a yw'r datganiad ar dudalennau 18 i 22 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru â chanllawiau'r Trysorlys, "Llywodraethu Corfforaethol: Datganiad am Reolaeth Fewnol". Nodwn os nad yw'n bodloni'r gofynion ar gyfer datgelu a nodir gan y Trysorlys neu os yw'r datganiad yn

gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rydym yn ymwybodol ohoni o'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i ni ystyried, ac nid ydym wedi ystyried p'un a yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau. Nid yw'n ofynnol i ni ychwaith lunio barn o ran effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Archwilydd Cyffredinol Cymru na'i weithdrefnau o ran risgiau a rheolaeth.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a ph'un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac a ydynt wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Bu i ni gynllunio a chynnal ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i ni i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth i'w harchwilio, boed drwy gamgymeriad neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio ein barn rydym hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth i'w harchwilio.

## Barn

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 31 Mawrth 2009 a'r gwarged, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny;
- paratowyd y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth yn briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan y ddeddf honno;
- defnyddiwyd y gwariant a'r incwm at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mhob ffordd berthnasol, ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli;
- mae'r wybodaeth sy'n ffurfio Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Sylwadaeth y Rheolwyr a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth nas archwiliwyd a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

KTS OWENS THOMAS CYFYNGEDIG
Archwilwyr Cofrestredig

19 Mehefin 2009

The Counting House
Celtic Gateway
Caerdydd
CF11 0SN

# Datganiadau Ariannol a Nodiadau

## Cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009

| | Nodyn | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm gweithredu** | | | |
| Incwm o ffioedd archwilio | | 16,875 | 15,671 |
| Incwm arolygu | 3 | 3,017 | 3,208 |
| Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol | | 4,900 | 3,922 |
| Incwm gweithredu arall | 4 | 333 | 227 |
| | | **25,125** | **23,028** |
| **Costau gweithredu** | | | |
| Staff a chostau cysylltiedig | 5 | 16,749 | 15,794 |
| Gwasanaethau allanol | 6 | 4,095 | 3,669 |
| Costau Gweithredu eraill | 7 | 4,305 | 3,587 |
| Cost dybiannol | 1(ix) | 4 | 3 |
| | | **25,153** | **23,053** |
| **Diffyg gweithredu gan gynnwys cost amcanol cyn trethiant** | | (28) | (25) |
| *Incwm ariannu* | | | |
| Ychwanegu costau tybiannol | 1(ix) | 4 | 3 |
| Llog net derbyniadwy | 8 | 43 | 34 |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn ar ôl trethiant** | | **19** | **12** |
| Treth gorfforaeth | 9 | (9) | 0 |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn ar ôl trethiant** | | **10** | **12** |

Mae'r nodiadau canlynol yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.
Nid oes unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn, heblaw am y rhai a nodir uchod.
Nodir y broses o symud cronfeydd wrth gefn yn Nodyn 18.

## Y Fantolen ar 31 Mawrth 2009

| | Nodyn | 31 Mawrth 2009 £000 | 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | 11 | **1,134** | **1,589** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr ffioedd a gwaith sy'n mynd rhagddo | 12 | 2,356 | 3,013 |
| Dyledwyr eraill | 13 | 532 | 509 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 14 | 1,056 | 209 |
| | | **3,944** | **3,731** |
| *Credydwyr: symiau sy'n daladwy o fewn blwyddyn* | | | |
| Credydwyr a thaliadau a gronnwyd | 15 | 1,505 | 1,925 |
| Incwm gohiriedig | 16 | 3,368 | 3,071 |
| | | **4,873** | **4,996** |
| Rhwymedigaethau cyfredol net | | (929) | (1,265) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 17 | 97 | 226 |
| **Cyfanswm asedau net** | | **108** | **98** |
| *Ariannwyd gan* | | | |
| Cronfeydd refeniw wrth gefn | 18 | 108 | 98 |
| **Cyfanswm yr arian** | | **108** | **98** |

Mae'r nodiadau canlynol yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

....................................

Jeremy Colman

*Swyddog Cyfrifyddu*

19 Mehefin 2009

## Datganiad Llif Arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009

| | Nodyn | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|---|
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | 19 | **862** | **261** |
| **Elw o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog a gafwyd | | 43 | 34 |
| Mewnlif arian parod net o elw o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid | | **43** | **34** |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol** | | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | | (58) | (975) |
| All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | | **(58)** | **(975)** |
| | | | |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod** | 20 | **847** | **(680)** |

Mae'r nodiadau canlynol yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

## Nodyn 1 - Confensiynau a Pholisïau Cyfrifyddu
## Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Disgrifir y polisïau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrid eu bod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

i Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried y broses o ailbrisio asedau sefydlog lle y bônt yn berthnasol i'w gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol, ar ffurf a gyfarwyddir gan Drysorlys EM, o dan baragraff 13(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

ii Mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion Deddf Cwmnïau 2006, heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, a'r safonau cyfrifyddu cymwys i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn briodol.

iii Priodolwyd y costau yr aethpwyd iddynt ar archwiliadau'r Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth y Cynulliad (fel y'i cyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) a chyrff cysylltiedig, llywodraeth leol a chyrff y GIG, lle y bo'n bosibl, yn uniongyrchol i'r gweithgarwch perthnasol; lle na lwyddwyd i wneud hyn, priodolwyd gwariant cyffredin i bob gweithgarwch yn ôl sawl awr a weithiwyd neu sail briodol arall.

iv Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr nas ariennir y gall cyflogeion a chyflogwyr gyfrannu ato. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymol yn ystod y cyfnod y bydd yn elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy wneud taliadau i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a gyfrifir ar sail gronnol. Codir rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol ar Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff trefniadau pensiwn eu hegluro'n fanylach yn yr Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth.

v Codir rhenti prydles gweithredu ar sail llinell syth yn ystod cyfnod y brydles. Caiff cymhellion prydles a gafwyd eu cydnabod yn y cyfrif Incwm a Gwariant fel rhan annatod o gyfanswm y treuliau prydles.

vi Cydnabyddir incwm ffi crynswth ac incwm gweithredu arall yn seiliedig ar werth gwaith y codir tâl amdano heb gynnwys TAW.

vii Caiff incwm gweithredu, p'un ai gynhyrchir drwy grant uniongyrchol y llywodraeth, arian a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, ffioedd gan awdurdodau neu fel arall, ei gredydu i'r flwyddyn gyfrif y gwneir y gwaith ynddi. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r gwaith gael ei wneud ei ddosbarthu fel incwm gohiriedig.

**viii** Darperir dibrisiant ar bob ased sefydlog a gyfrifir i dalu am gost pob ased, llai y gwerth amcangyfrifedig dros ben, mewn rhandaliadau blynyddol cyfwerth yn ystod ei oes ddefnyddiol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn a Ffitiadau | 10 mlynedd |
| Offer Cyfrifiadurol | 3 blynedd |
| Meddalwedd Gyfrifiadurol | 5 mlynedd |
| Offer Swyddfa | 5 mlynedd |

O dan bolisi cyfalafu'r Archwilydd Cyffredinol, cyfalafir offer cyfrifiadurol unigol a meddalwedd gwerth dros £5,000; offer arall gwerth dros £1,000 a gwaith adnewyddu swyddfa.

**ix** Mae cost dybiannol cyfrifo cyfalaf yn seiliedig ar asedau net ac eithrio balansau a ddelir gyda Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol ar 3.5 y cant, (2007-08, 3.5%) ac fe'i codir ar gostau gweithredu. Caiff y gost hon ei hychwanegu at y gwarged/(diffyg) gweithredu a'i phriodoli i wariant llywodraeth ganolog ddatganoledig, llywodraeth leol a'r GIG ar sail cronfeydd wrth gefn ym mhob gweithgarwch.

**x** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn darparu ar gyfer costau dadfeilio o dan ei brydlesi eiddo, a ddisgowntiwyd i'r gwerth presennol.

**xi** Polisi'r Archwilydd Cyffredinol yw nad ymgymerir ag unrhyw fasnachu mewn offerynnau ariannol, ac y caiff pob blaendal ei wneud mewn sterling, a dyna fu ei bolisi drwy gydol y cyfnod a adolygwyd. Gweler Nodyn 24 am ragor o fanylion. Gwneir adneuon yn y cyfrifon canlynol:

**a** Cyfrif llog dros nos

**b** Cronfa Sterling Fyd-eang

Cedwir y ddau gyfrif gyda Grŵp RBS. Mae'r Gronfa Sterling Fyd-eang yn gronfa a reolir sy'n ei gwneud yn bosibl adneuo neu godi arian yn syth. Ei nod yw diogelu balansau cyfalaf hyd yn oed pan fo ansefydlogrwydd ariannol o fewn y marchnadoedd ariannol, tra'n cynnig adenillion marchnad arian cyfanwerthol. Strwythurwyd y gronfa i sicrhau y cynhelir y graddau uchaf, sef gradd AAA neu'r hyn sy'n cyfateb iddi gydag asiantaethau graddio Standard & Poor, Fitch a Moody.

**xii** Caiff dyledwyr a gwaith sy'n mynd rhagddo eu prisio ar werth gwireddadwy amcangyfrifedig. Mae gwaith sy'n mynd rhagddo yn cyfeirio at yr hyn a geir drwy gontractau gwasanaeth am waith a gwblhawyd pan nad yw'r ffi wedi'i derbyn eto neu pan fo'r gwaith a wnaed yn perthyn i gyfnodau cyfrifyddu gwahanol. Fe'i nodir ar sail y gost lawn llai darpariaeth am golledion rhagweladwy a symiau a gafodd eu bilio ar y cyfrif.

**xiii** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gweithredu ar bob dyled, a dim ond lle ceir amheuaeth ynghylch adennill y ddyled honno y bydd yn darparu ar ei chyfer. Caiff unrhyw ddyled a ddilëir a gaiff ei chasglu ar ôl hynny ei chlirio yn erbyn y ddarpariaeth ychwanegol a wnaed yn y cyfnod.

**xiv** Ar y cyfan, nid yw gweithgareddau'r Archwilydd Cyffredinol yn rhai masnachu ac felly ni chodir treth arnynt. Fodd bynnag, cafodd canllawiau Cyllid a Thollau EM eu hegluro gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Ionawr 2009 fel bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gorfod talu treth gorfforaeth ar unrhyw elw sy'n deillio o incwm masnachu, incwm buddsoddi ac unrhyw enillion cyfalaf sy'n codi.

## Nodyn 2 - Dadansoddiad o incwm a gwariant

i Dadansoddiad yn ôl sector:

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llywodraeth ganolog** | | | |
| Incwm o ffioedd (gweler ii) | Incwm o ffioedd | 1,178 | 1,042 |
| | Incwm grant | 393 | 363 |
| | Incwm arall | 5,044 | 3,983 |
| | | **6,615** | **5,388** |
| Gwariant | Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol | 6,601 | 5,385 |
| **Canlyniadau net** | | **14** | **3** |
| **Llywodraeth leol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau tân ac achub a thai** | | | |
| Incwm o ffioedd (gweler ii) | Incwm o ffioedd | 9,104 | 10,743 |
| | Incwm grant | 4,723 | 3,097 |
| | Incwm arall | 374 | 233 |
| | | **14,201** | **14,073** |
| Gwariant | Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol | 14,191 | 14,061 |
| **Canlyniadau net** | | **10** | **12** |
| **Iechyd** | | | |
| Incwm (gweler ii) | Incwm o ffioedd | 4,219 | 3,560 |
| | Incwm arall | 133 | 41 |
| | | **4,352** | **3,601** |
| Gwariant | Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol | 4,366 | 3,604 |
| **Canlyniadau net** | | **(14)** | **(3)** |

ii Dadansoddiad o incwm: Gwaith a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol yn uniongyrchol, a gwaith a osodwyd ar gontract:

### Llywodraeth ganolog

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Cyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol - ffioedd | 1,178 | 1,042 |
| - grantiau | 393 | 363 |
| Incwm arall | 5,044 | 3,983 |
| | **6,615** | **5,388** |

### Llywodraeth leol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau tân ac achub a thai

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Cyflawnwyd gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol - ffioedd | 7,760 | 8,672 |
| - grantiau | 2,058 | 2,090 |
| Archwiliadau a gynhaliwyd gan gwmnïau cyfrifyddu preifat | 4,009 | 3,078 |
| Incwm arall | 374 | 233 |
| | **14,201** | **14,073** |

### Iechyd

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Cyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol - ffioedd | 4,219 | 3,560 |
| Incwm arall | 133 | 41 |
| | **4,352** | **3,601** |

Mae'r adrannau hyn yn adlewyrchu'r gwaith y mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol godi ffi amdano a fydd yn talu am gost lawn darparu'r gwasanaeth.

## Nodyn 3 - Incwm arolygu

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am arolygu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â gofynion y Ddeddf.

Mae grantiau ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer gwaith arolygu mewn awdurdodau lleol, ac yn ystod y cyfnod hwn dyfarnodd Llywodraeth y Cynulliad nifer o grantiau.

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Incwm o ffioedd | 1,566 | 1,387 |
| Incwm grant | | |
| Llywodraeth y Cynulliad | 1,451 | 1,821 |
| | **3,017** | **3,208** |

## Nodyn 4 - Incwm gweithredu arall

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Costau cyfreithiol a ad-dalwyd | 4 | 0 |
| Cyhoeddiadau a chynadleddau | 13 | 0 |
| Secondiadau | 310 | 227 |
| Incwm amrywiol | 6 | 0 |
| | **333** | **227** |

# Nodyn 5 - Staff a chostau cysylltiedig

i

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| **Costau staff** | | |
| Cyflogau staff | 11,379 | 10,874 |
| Cyflogau Aelodau o'r Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg | 17 | 14 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,011 | 973 |
| Costau pensiwn | 2,636 | 2,539 |
| | **15,043** | **14,400** |
| Cynllun ceir | 677 | 564 |
| Tanysgrifiadau a buddiannau eraill | 76 | 69 |
| | **15,796** | **15,033** |
| Contractwyr archwilio ac arolygu | 745 | 761 |
| | **16,541** | **15,794** |
| Dileu swyddi, ymddeoliad cynnar a chostau diswyddo | 208 | 0 |
| | **16,749** | **15,794** |
| **Mae costau staff a secondiwyd i sefydliadau eraill wedi'u cynnwys mewn cyflogau** | **310** | **227** |

Ceir rhagor o wybodaeth am daliadau cydnabyddiaeth a hawliau pensiwn uwch reolwyr yn yr adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth ar dudalennau 14 i 16.

ii

| Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 |
|---|---|---|
| Staff a gyflogwyd | | |
| Gweithredol - archwilio ac arolygu | 184 | 186 |
| Adrannau canolog | 67 | 58 |
| | **251** | **244** |
| Mewn swydd ar ddiwedd y flwyddyn | **270** | **264** |
| **Contractwyr asiantaeth a chyswllt parhaol, hyblyg (cyfartaledd yn ystod y flwyddyn)** | **34** | **27** |
| **Contractwyr asiantaeth a chyswllt parhaol, hyblyg (mewn swyddi ar ddiwedd y flwyddyn)** | **29** | **32** |

## Nodyn 6 - Gwasanaethau allanol

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat | 3,942 | 3,464 |
| Costau ymchwil ac ymgynghori eraill | 153 | 205 |
| | **4,095** | **3,669** |

Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau a brynwyd i mewn gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'i swyddogaethau archwilio, arolygu neu ymchwilio.

## Nodyn 7 - Costau gweithredu eraill

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Swyddfeydd | | |
| - costau prydlesi rhent | 605 | 429 |
| - costau eraill | 458 | 501 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 1,906 | 1,700 |
| Recriwtio a throsglwyddiadau | 21 | 62 |
| Dibrisio | 391 | 79 |
| Ffi archwilio | 10 | 9 |
| Ffioedd proffesiynol | 134 | 105 |
| Teithio a chynhaliaeth | 572 | 554 |
| Hyfforddi | 159 | 251 |
| Dyledion a gafodd eu dileu | 2 | 0 |
| Dyledion y darparwyd ar eu cyfer | 47 | 0 |
| Rhyddhau darpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion | 0 | (103) |
| | **4,305** | **3,587** |

## Nodyn 8 - Llog net derbyniadwy

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Llog derbyniadwy | 43 | 34 |
| | **43** | **34** |

## Nodyn 9 - Trethiant

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Treth gorfforaeth ar 21% | 9 | 0 |
| | **9** | **0** |

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gorfod talu treth gorfforaeth ar ei incwm masnachu, incwm buddsoddi ac unrhyw enillion cyfalaf sy'n codi. Darparwyd ar gyfer treth gorfforaeth ar y ffynonellau incwm hyn yn y cyfrifon.

## Nodyn 10 - Cysoni cais net am adnoddau â gofyniad arian parod net

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif £000 | Alldro £000 | | Amcangyfrif £000 | Alldro £000 | |
| Cyfanswm yr incwm | 25,600 | 25,168 | 432 | 24,700 | 23,062 | 1,638 |
| Llai adnoddau wedi'u heithrio (nodyn i) | (11,400) | (12,212) | 812 | (11,300) | (11,782) | 482 |
| | 14,200 | 12,956 | 1,244 | 13,400 | 11,280 | 2,120 |
| Llai adnoddau cymeradwy wedi'u cronni (nodyn ii) | (9,300) | (8,056) | (1,244) | (9,100) | (7,279) | (1,821) |
| Cais net am adnoddau | 4,900 | 4,900 | 0 | 4,300 | 4,001 | 299 |
| Ychwanegu incwm a gydnabuwyd cyn derbyn grant | 0 | 0 | 0 | 0 | 280 | (280) |
| Defnydd o ddarpariaethau, newidiadau mewn dyledwyr a chredydwyr ac addasiadau eraill (nodyn iii) | 200 | 391 | (191) | 100 | (2) | 102 |
| Llai eitemau cyfalaf | (200) | (391) | 191 | (200) | (79) | (121) |
| **Gofyniad arian parod net[1]** | **4,900** | **4,900** | **0** | **4,200** | **4,200** | **0** |

1 Gall cyfanswm y balansau arian parod a ddelir gan y sefydliad, nodyn 21, o ganlyniad i lifau arian parod gweithredol arferol, gynyddu neu ostwng yn annibynnol ar y balansau arian parod hynny a briodolir yn benodol i'r gofyniad arian parod net ar gyfer gweithgareddau nas eithriwyd, fel y diffiniwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Nodiadau

Nodyn i  O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff incwm sy'n gysylltiedig yn gyffredinol â llywodraeth leol ei eithrio at ddibenion cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif £000 | Alldro £000 | | Amcangyfrif £000 | Alldro £000 | |
| Ffioedd archwilio | 9,600 | 10,463 | (863) | 9,400 | 9,830 | (430) |
| Grant Llywodraeth y Cynulliad | 1,500 | 1,451 | 49 | 1,500 | 1,821 | (321) |
| Arall | 300 | 298 | 2 | 400 | 131 | 269 |
| | **11,400** | **12,212** | **(812)** | **11,300** | **11,782** | **(482)** |

Nodyn ii  O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae incwm sy'n gysylltiedig yn gyffredinol â llywodraeth ganolog ac iechyd yn destun cymeradwyaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol.

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif £000 | Alldro £000 | | Amcangyfrif £000 | Alldro £000 | |
| Ffioedd archwilio | 6,900 | 5,495 | 1,405 | 6,800 | 5,004 | 1,796 |
| Ffioedd ardystio grant | 2,300 | 2,452 | (152) | 2,200 | 2,087 | 113 |
| Arall | 100 | 109 | (9) | 100 | 188 | (88) |
| | **9,300** | **8,056** | **1,244** | **9,100** | **7,279** | **1,821** |

Nodyn iii Defnyddio darpariaethau, newidiadau mewn dyledwyr a chredydwyr ac addasiadau eraill.

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif £000 | Alldro £000 | | Amcangyfrif £000 | Alldro £000 | |
| Gostyngiad mewn dyledwyr, net o gynyddu/(rhyddhau) darpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion a dyledion amheus | 100 | 587 | (487) | 50 | 193 | (143) |
| Cynyddu/(rhyddhau) darpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion a ddrwg-amheus | 0 | 47 | (47) | 0 | (103) | 103 |
| Gostyngiad mewn credydwyr ac incwm gohiriedig | 100 | (123) | 223 | 50 | (119) | 169 |
| (Gostyngiad)/cynydd mewn darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 0 | (129) | 129 | 0 | 25 | (25) |
| Incwm amrywiol | 0 | 9 | (9) | 0 | 2 | (2) |
| | **200** | **391** | **(191)** | **100** | **(2)** | **102** |

## Esboniad o amrywiant rhwng yr amcangyfrif a'r alldro

Mae cyfanswm yr incwm a gydnabuwyd yn llai na'r disgwyl oherwydd natur ac amseru'r gwaith a wnaed. Tra bod mwy o waith y codir tâl amdano wedi'i wneud o fewn y sector llywodraeth leol (a gaiff ei eithrio ar y cyfan at ddibenion cymeradwyo, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), serch hynny fe'i gwrthbwyswyd gan y lefel o incwm a oedd yn llai na'r disgwyl a gydnabuwyd o fewn y sector llywodraeth ganolog a'r sector iechyd, sy'n ffurfio'r gofyniad adnoddau cymeradwy o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r eitem gyfalaf yn cynnwys cost dybiannol cyfalaf a thaliadau dibrisio, gyda'r tâl yn fwy na'r disgwyl o ganlyniad i ddileu asedau a ddeilliodd o derfynu prydlesi a oedd yn ymwneud â hen swyddfeydd yng Nghaerdydd.

## Nodyn 11 - Asedau sefydlog

| | Dodrefn a ffitiadau £000 | Offer a meddalwedd gyfrifiadurol £000 | Offer swyddfa £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2008 | 1,249 | 646 | 38 | 1,933 |
| Pryniannau | 46 | 12 | 0 | 58 |
| Gwarediadau | (452) | (5) | (11) | (468) |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | **843** | **653** | **27** | **1,523** |
| **Dibrisio** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2008 | 181 | 146 | 17 | 344 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 279 | 102 | 10 | 391 |
| Gwarediadau | (333) | (4) | (9) | (346) |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | **127** | **244** | **18** | **389** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | **716** | **409** | **9** | **1,134** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **1,068** | **500** | **21** | **1,589** |

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol.

Mae'r holl asedau o dan berchenogaeth ac nid yw'r un yn ddarostyngedig i gytundebau prydles.

## Nodyn 12 - Dyledwyr ffioedd a gwaith sy'n mynd rhagddo

| | 31 Mawrth 2009<br>£000 | 31 Mawrth 2008<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Dyledwyr ffioedd | | |
| - Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig | 134 | 881 |
| - Llywodraeth leol | 825 | 898 |
| - Y GIG | 221 | 552 |
| Gwaith yn mynd rhagddo | | |
| - Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig | 486 | 307 |
| - Llywodraeth leol | 346 | 306 |
| - Y GIG | 344 | 69 |
| | **2,356** | **3,013** |

Darpariaeth gyffredinol drwg-ddyledion a dyledion amheus (wedi'i chlirio yn erbyn y dosbarth priodol o ddyledwr):

| | 31 Mawrth 2009<br>£000 | 31 Mawrth 2008<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Darpariaeth agoriadol | 89 | 192 |
| Darpariaeth/(rhyddhad) yn ystod y flwyddyn | 47 | (103) |
| **Darpariaeth derfynol** | **136** | **89** |

## Nodyn 13 - Dyledwyr eraill

| | 31 Mawrth 2009<br>£000 | 31 Mawrth 2008<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Dyledwyr eraill a rhagdaliadau | 513 | 485 |
| Benthyciadau i gyflogeion | 19 | 24 |
| | **532** | **509** |

Mae dyledion sy'n daladwy ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod:

| | 31 Mawrth 2009 £000 | 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Wedi'u cynnwys mewn dyledwyr eraill: | | |
| - cynllun adleoli tai: blaensymiau i staff | **14** | **19** |

Gellir dadansoddi balansau'r dyledwyr yn nodiadau 12 a 13 o dan y categorïau canlynol:

| | 31 Mawrth 2009 £000 | 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Cyrff llywodraeth ganolog | 651 | 1,188 |
| Cyrff llywodraeth leol | 1,171 | 1,204 |
| Cyrff y GIG | 565 | 621 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 501 | 509 |
| | **2,888** | **3,522** |

## Nodyn 14 - Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | 31 Mawrth 2009 £000 | 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Cyfrif cyfredol | 759 | 209 |
| Y Gronfa Sterling Fyd-eang | 297 | 0 |
| | **1,056** | **209** |

Cafodd y Gronfa Sterling Fyd-eang ei sefydlu o fewn Grŵp RBS yn ystod y flwyddyn. Mae'r gronfa hon yn anelu at ddiogelu balansau cyfalaf hyd yn oed pan fo ansefydlogrwydd ariannol o fewn y marchnadoedd ariannol, tra'n cynnig adenillion marchnad arian cyfanwerthol. Strwythurwyd y gronfa i sicrhau y cynhelir y graddau uchaf, sef gradd AAA neu'r hyn sy'n cyfateb iddi gydag asiantaethau graddio Standard & Poor, Fitch a Moody.

## Nodyn 15 - Credydwyr a thaliadau a gronnwyd

| | 31 Mawrth 2009 £000 | 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 168 | 470 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | 368 | 617 |
| Croniadau ar gyfer hawl gwyliau nas cymerwyd eto | 420 | 336 |
| Croniadau | 549 | 502 |
| | **1,505** | **1,925** |

Mae'r croniadau ar gyfer cyflog gwyliau yn cynrychioli'r rhwymedigaeth ar gyfer hawl gwyliau a gaiff ei chario ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn.

## Nodyn 16 - Incwm gohiriedig

| | 31 Mawrth 2009 £000 | 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | 3,368 | 3,071 |
| | **3,368** | **3,071** |

Mae'r incwm gohiriedig yn cynrychioli'r arian a gafwyd ymlaen llaw ar gyfer gwaith archwilio ac arolygu.

Gellir dadansoddi balansau'r credydwyr yn nodiadau 15 a 16 o dan y categorïau canlynol:

| | 31 Mawrth 2009 £000 | 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Cyrff llywodraeth ganolog | 74 | 55 |
| Cyrff llywodraeth leol | 2,197 | 1,989 |
| Cyrff y GIG | 1,208 | 1,027 |
| Corfforaethau cyhoeddus | 17 | 0 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 1,377 | 1,925 |
| | **4,873** | **4,996** |

## Nodyn 17 - Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i gostau swyddfeydd yn y dyfodol sy'n cynnwys dadfeiliadau a allai fod yn daladwy ar ddiwedd y prydlesi.

| | 31 Mawrth 2009 £000 | 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Balans agoriadol | 226 | 201 |
| Darpariaeth yn ystod y flwyddyn | 40 | 25 |
| Rhyddhawyd a defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (169) | 0 |
| **Balans i gau** | **97** | **226** |

Rhyddheir a defnyddir y darpariaethau hyn, fel y bo'n briodol, pan ddaw'r prydlesi i ben.

## Nodyn 18 - Cronfeydd wrth gefn

### Cronfeydd refeniw wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn adlewyrchu arian a roddwyd i'r Archwilydd Cyffredinol ariannu cyfalaf gweithio.

| | | 31 Mawrth 2009 £000 | 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd refeniw wrth gefn** | **Llywodraeth ganolog** | | |
| | Dygwyd ymlaen | 5 | 2 |
| | Gwarged ar gyfer y flwyddyn | 14 | 3 |
| | **Cronfeydd wrth gefn llywodraeth ganolog** | **19** | **5** |
| | **Llywodraeth leol** | | |
| | Dygwyd ymlaen | 45 | 33 |
| | Gwarged ar gyfer y flwyddyn | 10 | 12 |
| | **Cronfeydd wrth gefn llywodraeth leol** | **55** | **45** |
| | **Iechyd** | | |
| | Dygwyd ymlaen | 48 | 51 |
| | Diffyg ar gyfer y flwyddyn | (14) | (3) |
| | **Cronfeydd wrth gefn ym maes iechyd** | **34** | **48** |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | | **108** | **98** |

## Nodyn 19 - Cysoni diffyg gweithredu ar gyfer y flwyddyn â mewnlif net o weithgareddau gweithredu

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Diffyg gweithredu | (37) | (25) |
| Cost dybiannol | 4 | 3 |
| Dibrisio | 391 | 79 |
| Colled wrth waredu asedau sefydlog | 122 | 2 |
| Gostyngiad mewn dyledwyr a gwaith sy'n mynd rhagddo | 634 | 296 |
| Gostyngiad mewn credydwyr a darpariaethau | (252) | (94) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **862** | **261** |

## Nodyn 20 - Cysoni mewnlif arian parod net â newid mewn cronfeydd net

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod | 847 | (680) |
| **Newid mewn cronfeydd net** | **847** | **(680)** |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2008 | 209 | 889 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2009** | **1,056** | **209** |

## Nodyn 21 - Dadansoddiad o'r newidiadau i gronfeydd net

| | Ar 1 Ebrill 2008 £000 | Arian Parod llifau £000 | Ar 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau byrdymor ac arian parod yn y banc ac wrth gefn | **209** | 847 | **1,056** |

## Nodyn 22 - Ymrwymiadau ariannol

Ceir ymrwymiadau refeniw ar 31 Mawrth 2009 o ran prydlesi ceir na ellir eu canslo sy'n dod i ben:

| | 31 Mawrth 2009 £000 | 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|
| o fewn blwyddyn | 423 | 39 |
| o fewn blwyddyn i bum mlynedd | 60 | 566 |
| | **483** | **605** |

Roedd ymrwymiadau blynyddol ar 31 Mawrth 2009 i dalu rhenti o dan gytundebau prydles sy'n dod i ben:

| | 2009 £000 | 2009 Nifer yr eiddo | 2008 £000 | 2008 Nifer yr eiddo |
|---|---|---|---|---|
| o fewn blwyddyn | 62 | 2 | 0 | 0 |
| o fewn blwyddyn i bum mlynedd | 60 | 1 | 358 | 5 |
| dros bum mlynedd | 5,314 | 2 | 6,593 | 2 |
| | **5,436** | **5** | **6,951** | **7** |

Adolygir rhent prydlesi swyddfeydd.

## Nodyn 23 - Colledion a thaliadau arbennig

Nid oes unrhyw golledion perthnasol, heblaw am y golled ar waredu asedau sefydlog fel yn Nodyn 11, neu daliadau arbennig yn 2008-09 y mae angen eu datgelu yn unol â'r Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol.

## Nodyn 24 - Deilliadau ac offerynnau ariannol

Offerynnau Ariannol FRS 25: Datgelu a Chyflwyno ac FRS 26 Offerynnau Ariannol: Mae Cydnabod a Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau'r Archwilydd Cyffredinol a’r modd y caiff ei weithrediadau eu hariannu, ni chaiff ei amlygu i’r un graddau o risg ariannol y mae endidau busnes yn eu hwynebu. At hynny, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan lawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risgiau nag a fyddai'n nodweddiadol o gwmnïau rhestredig y mae FRS 25 ac FRS 26 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Er y gall yr Archwilydd Cyffredinol fenthyca arian ni fu'n rhaid iddo wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ar wahân i ddefnyddio cyfleuster gorddrafft cymeradwy. Gall fuddsoddi cronfeydd gwarged ond mae hwn yn gyfrif sy'n dwyn llog dros nos ac o fewn Cronfa Sterling Fyd-eang ac nid yw'n newid y risgiau a wyneba wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Fel y caniatawyd gan FRS 29 (IFRS 7) Offerynnau Ariannol: Datgeliadau: Dyledwyr a Chredydwyr sy'n aeddfedu neu'n dod yn daladwy o fewn 12 mis i ddyddiad y fantolen wedi'u hepgor o'r proffil arian cyfred.

### Risg o hylifedd

Ariennir gofynion refeniw a chyfalaf net yr Archwilydd Cyffredinol o ran adnoddau gan y Cynulliad Cenedlaethol. Nid yw ei swydd yn agored i risgiau hylifedd sylweddol felly.

### Risg cyfradd llog

Nid yw asedau na rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol, ac eithrio incwm buddsoddi, yn agored i risg cyfradd llog.

### Risg arian cyfred tramor

Mae'r graddau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn agored i risg arian cyfred tramor yn ddibwys gan mai dim ond pryniannau bach iawn o arian tramor a wna ymlaen llaw mewn perthynas â theithio tramor a chostau cysylltiedig eraill megis gwestai. Hefyd, prin iawn yw'r ffioedd sy'n deillio o waith tramor ac fe'i trosir pan ddaw i law. Caiff unrhyw wahaniaethau cyfnewid eu cofnodi yn y cyfrif incwm a gwariant wrth gyfrifo'r gwarged gweithredu.

### Gwerthoedd teg

Nid oes gwahaniaeth rhwng gwerthoedd ar bapur a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol ar 31 Mawrth 2009.

## Nodyn 25 - Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cael dyfarniad cychwynnol gan Gyllid a Thollau EM bod ei statws TAW yn parhau o drefniadau etifeddiaeth blaenorol o dan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Golyga hyn nad yw'r gwaith arolygu yn weithgarwch busnes at ddibenion TAW. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n trafod â Chyllid a Thollau EM i bennu'r driniaeth gywir ar gyfer y swyddogaeth hon ac mae'n parhau i godi ac adennill TAW ar y gweithgarwch hwn.

## Nodyn 26 - Trafodion â phartïon cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, nid oes unrhyw aelod o'r Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg, aelodau o staff allweddol na'u partïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r datgeliad canlynol yn ymwneud â staff, neu eu partïon cysylltiedig, sydd mewn sefyllfa ddylanwadol yn sgîl cael eu hethol, cael tâl cydnabyddiaeth gan, neu gael eu penodi i unrhyw sefydliad, er enghraifft:

**a** lle bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penodi'r archwilydd neu'n arolygu'r corff;

**b** lle bo cyfrifoldebau statudol penodol i gydweithio ee, y Comisiwn Gofal Iechyd;

**c** sy'n adran llywodraeth ganolog;

**ch** sy'n darparu gwasanaethau sylweddol i'r Archwilydd Cyffredinol neu sy'n cael gwasanaethau sylweddol ganddo.

| Aelod o'r Pwyllgor Rheoli Archwilio a Risg | Swydd a ddaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 |
|---|---|
| Peter Laing – Cadeirydd | Cadeirydd Cymdeithas Tai Unedig Cymru<br>Ynad gyda mainc Caerdydd<br>Aelod o'r Tribiwnlys Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol<br>Aelod o Dribiwnlys y Rheoleiddiwr Pensiynau<br>Aelod o Dribiwnlys Cyllid a Thollau EM<br>Aelod o'r Tribiwnlys Rheoli Hawliadau<br>Ymddiriedolwr Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Cymdeithas Adeiladu'r Principality |
| Yr Athro David Hands | Athro gwadd er anrhydedd yn Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ym Mhrifysgol Morgannwg<br>Uwch gymrawd yn yr Athrofa Ymchwil Gofal Meddygol a Chymdeithasol ym Mhrifysgol Cymru, Bangor |
| Rosamund Blomfield-Smith | Cadeirydd Moat Homes Ltd<br>Cyfarwyddwr Thames Water Utilities Ltd a chwmnïau grwp cysylltiedig<br>Cyfarwyddwr British Empire Securities Plc<br>Llywodraethwr Prifysgol Gorllewin Lloegr<br>Llywodraethwr Coleg Amaethyddol Hartpury<br>Cyfarwyddwr Engineering Business Ltd tan fis Ebrill 2008 |

| Aelod o Staff | Swydd a ddaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 |
|---|---|
| Nicholas Selwyn | Mae ei wraig yn Brif Weithredwr Cymdeithas Tai Taf |
| Dawn Brace | Mae ei gŵr yn Brif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru |
| Gill Lewis | Mae ei gŵr yn Brif Weithredwr Dros Dro'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd |
| Alison Butler | Mae ei gŵr yn Gyfarwyddwr Cyllid yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd |
| Chris Bolton | Mae ei wraig yn Gyfarwyddwr Dros Dro Gwella Gwasanaethau'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd |
| Nigel Griffiths | Yn berchennog cwmni preifat sydd wedi cael incwm rhent ar gyfer eiddo a ddefnyddir gan Gyngor Sir Powys |
| Iolo Llewelyn | Mae ei frawd yn gynghorydd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ac yn gyfarwyddwr Cymdeithas Tai Trothwy, rhan o Grŵp Gwalia |